University of Bristol | Cardiff University / Prifysgol Caerdydd | University of Exeter

# Beth yw Rheoli Data ?



**Mae rheoli data yn cyfeirio at y prosesau sy'n ymwneud â chynllunio, casglu, trefnu, prosesu, storio a chynnal data mewn treialon ymchwil drwy gydol yr astudiaeth.**

Mae rheoli data yn dechrau wrth sefydlu astudiaeth lle mae cynllunio rheoli data yn digwydd, drwy'r cyfnod astudio byw sy'n cynnwys rheoli data a'i gasglu o ddydd i ddydd, i gau'r astudiaeth a'r cyfnod wedi hynny lle caiff data ei ddadansoddi, ei gadw a'i rannu i'w ddefnyddio a'i gyhoeddi.

## Pam dylwn i ystyried Rheoli Data

Mae arferion a phrosesau rheoli data da yn hanfodol wrth gynnal ymchwil i sicrhau allbwn ymchwil o ansawdd uchel a chywirdeb data h.y. sicrhau bod data'n gywir, yn gyson ac yn gyflawn.

Elfen hanfodol o reoli data ymchwil yw cadw at y rheoliadau treialu a rheoli data perthnasol a sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei reoli yn unol â'r rheoliadau hyn.

## Os byddaf yn ariannu Rheolwr Data sut byddant yn treulio eu diwrnod/hamser

### Cyfnod Sefydlu

- Creu'r ffurflenni Adroddiad Achos fel bod yr holl bwyntiau data yn cael eu casglu i gyflawni amcanion y treial
- Creu matrics data fel bod yr holl bwyntiau data yn cael eu hadlewyrchu yn y gronfa ddata
- Cynhyrchu manyleb cronfa ddata fel bod gofynion cronfa ddata'r astudiaeth yn glir
- Cynnal Profion Derbyniad Defnyddiwr trylwyr o'r gronfa ddata gan ddilyn sgriptiau profi a gymeradwywyd ymlaen llaw i sicrhau bod y gronfa ddata yn bodloni'r holl fanylebau a'i bod yn addas i'r diben.
- Cynhyrchu Cynllun Rheoli Data fel ei bod yn amlwg sut caiff yr holl ddata ei reoli drwy gydol yr astudiaeth.

### Cyfnod Recriwtio / Dilynol

- Cwestiynu data i sicrhau bod y set ddata yn parhau heb wallau a chyda'r uchafswm o bwyntiau data wedi'u casglu.
- Cynhyrchu adroddiadau fel y gellir monitro eitemau fel recriwtio, cyfraddau dilynol, nifer y rhai sy'n tynnu'n ôl a chyflawnrwydd y data.
- Cwblhau monitro fel y gellir sefydlu tueddiadau os oes rhai canolfannau lle mae nifer uwch o ymholiadau data/lefel isel o recriwtio, fel bod modd cymryd camau cyn gynted â phosibl.
- Prosesu'r achosion o dynnu'n ôl i sicrhau bod hawliau'r cyfranogwyr yn cael eu parchu o ran pa ran o'r astudiaeth y maent am dynnu'n ôl ohoni.
- Gweithio i'r Cynllun Rheoli Data a bennwyd ymlaen llaw i sicrhau bod yr holl brosesau rheoli data yn gadarn ac yn cydymffurfio â rheoliadau.

### Cyfnod cau'r astudiaeth

- Cwblhau'r setiau data a sicrhau bod yr holl ddata yn gywir ac yn gyflawn
- Cloi'r gronfa ddata i sicrhau na ellir gwneud unrhyw newidiadau anawdurdodedig i'r data unwaith y bernir ei fod wedi'i gwblhau.
- Dychwelyd y setiau data i'r safle i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol.



GW4